Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
***Pennaeth* Head Teacher**

E-bost/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**

Mawrth 18fed 2019

Eisteddfod Gylch yr Urdd

Annwyl rieni,

Rydym wedi derbyn manylion am drefniadau eisteddfod gylch yr Urdd **dydd Sadwrn yma, Mawrth 23ain**. Cynhelir yr eisteddfod **yn Ysgol Bro Alun, Delamere Avenue, Gwersyllt (LL11 4NG**). Mae copi o'r rhaglen ar gefn y llythyr hwn sy'n nodi amser rhagbrofion a'r eisteddfod yn y prynhawn. Dyma ychydig o wybodaeth berthnasol:

- **Gofynnwn i'r plant sy'n cystadlu gwisgo eu dillad ysgol**
- Bydd 3 yn mynd drwodd o bob rhagbrawf i'r Eisteddfod am 1:30pm
- Bydd y ddau gyntaf o gystadlaethau'r prynhawn yn mynd ymlaen i'r eisteddfod sir ar Ebrill 6ed yn Ysgol Gwynedd, Fflint.
- Gellir parcio ym maes parcio'r ysgol (gan gynnwys man gollwng), y maes parcio yn ymyl y clwb criced / bowlio (drws nesaf i'r ysgol) neu ar Rodfa Delamere tu allan i'r ysgol. Os ydych chi'n parcio ar Rodfa Delamere, a wnewch chi sicrhau nad ydych yn parcio ar draws dreif unrhyw un o'r tai o.g.y.dd
- Bydd bwyd ar gael yno am bris rhesymol
- Cost mynediad fydd £3 i oedolion (gan gynnwys i'r rhagbrofion), plant am ddim

Bydd yr amser sydd angen i blant y côr fod yno yn dilyn yn y ddeuddydd nesaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â'r ysgol cyn diwedd yr wythnos. Hoffwn ddiolch yn fawr o flaenllaw i chi am eich cefnogaeth ac i'r plant am eu gwaith caled.

Diolch yn fawr,

Osian Jones